



**Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)
2014–2020**

Erthygl 55 (Mesurau Iechyd y Cyhoedd)

**Y Cynllun Cymorth ar gyfer Busnesau Dyframaethu
Canllawiau ar Wneud Cais**

Cynnwys

	Rhif y Dudalen
Cyflwyniad	3
Y Cynllun Grant ar gyfer y Sector Dyframaethu	3
System Sgorio	4
Cymorth Gwladwriaethol	4
Pwy sy'n gymwys?	5
Sut rwy'n gwneud cais am y Grant ar gyfer y Sector Dyframaethu?	5
Sut gwneir y taliad Grant?	6
Sut byddaf yn cael gwybod bod y taliad wedi'i wneud?	6
Hysbysiad Preifatrwydd	6
Y Broses Apelio	7
Cwynion	7
Manylion Cyswllt	7

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyllid grant ar gael, i roi cymorth tymor byr ar gyfer y busnesau dyframaethu hynny sydd wedi dioddef effeithiau andwyol oherwydd gwerthiannau is, o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Nod y cyllid yw helpu busnesau dyframaethu i adennill cyfran o'r incwm a gollwyd gan eu gweithrediadau. Mae'r cynllun hwn yn eich galluogi i wneud cais am gyllid grant o dan Erthygl 55, i wneud iawn am incwm a gollwyd rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2020. Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus.

Bydd y cyllid yn helpu i fynd i'r afael ag anawsterau llif arian tymor byr o ganlyniad i werthiannau is, er mwyn cynnal lefelau staff a thalu costau uwch (er enghraifft, costau bwyd).

Mae'r incwm a gollwyd yn cael ei gyfrifo ar sail yr incwm cyfartalog a enillwyd gan y sefydliad sy'n gwneud y cais am gyllid yn ystod y tair blynedd diwethaf, ynghyd â sail resymegol glir i ddangos sut yr effeithir ar y lefelau incwm hyn.

Os ydych yn credu eich bod yn gymwys, dylech wneud cais i [Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein](#). Darllenwch yr adran 'Sut rwy'n gwneud cais?' yn y Canllawiau hyn.

Bydd y ffurflen gais ar gael i chi o ddydd Llun 10 Awst, drwy RPW Ar-lein. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais fydd 21 Medi 2020.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru gyda RPW Ar-lein, **cliciwch yma** a dilynwch y canllawiau er mwyn cofrestru a chreu cyfrif RPW Ar-lein eich busnes. Unwaith y byddwch wedi llwyddo i gofrestru byddwn yn anfon ffurflen gais atoch drwy adran 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein.

Y Cynllun Grant ar gyfer y Sector Dyframaethu

Darperir cyllid ar gyfer y Cynllun hwn o dan Erthygl 55 (Mesurau Iechyd y Cyhoedd) o Raglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Mae'n rhaid i ymgeiswyr i'r Cynllun hwn ddarparu cyfrifon wedi eu harchwilio ar gyfer tair blynedd.

Nod yr Gronfa yw cyfrannu at y gwaith o sicrhau sector dyframaethu cynaliadwy a helpu busnesau yn y sector hwnnw drwy wneud y canlynol:

- Galluogi busnesau i barhau â'u rhaglenni cynnal stoc, cynnal y lefelau staff hanfodol, prynu'r bwyd sydd ei angen a thalu costau sefydlog eraill a chostau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â'u gweithrediadau;
- meithrin sector dyframaethu sy'n gynaliadwy, sy'n defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, sy'n arloesol, yn gystadleuol ac yn seiliedig ar wybodaeth;

Y Cynllun Cymorth ar gyfer Busnesau Dyframaethu – Canllawiau ar Wneud Cais

- Gwella'r ffordd mae cynhyrchion dyframaethu'n cael eu prosesu a'u marchnata.

Mae cynnal iechyd a llesiant da yn y sector dyframaethu yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall y sector fasnachu pan fydd y marchnadoedd yn ailagor. Mae gwaith cynnal a chadw parhaus yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg o glefyd.

Mae'r cyllid arfaethedig o 50%, a'r uchafswm taliad o £10,000, yn gyson â lefel y cymorth a ddarperir ar gyfer sectorau pysgota eraill o ganlyniad i'r pandemig presennol, ac fe'i hystyrir yn gynnig teg a fydd yn lliniaru pryderon presennol rhanddeiliaid ynghylch materion hanfodol fel llif arian ac iechyd pysgod.

System Sgorio

Y Cynllun Grant ar gyfer Busnesau Dyframaethu – Tabl Sgorio			Sgôr
Disgrifiad	Tystiolaeth	Incwm a gollwyd rhwng:	
Effeithiwyd ar holl incwm yr ymgeisydd gan werthiannau is o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.	Rhowch dystiolaeth o'r incwm a gollwyd (h.y. datganiadau ariannol ar gyfrifon wedi eu harchwilio ar gyfer y tair blynedd diwethaf)	50% – 100%	10
Effeithiwyd yn sylweddol ar incwm yr ymgeisydd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.	Rhowch dystiolaeth o'r incwm a gollwyd (h.y. datganiadau ariannol ar gyfrifon wedi eu harchwilio ar gyfer y tair blynedd diwethaf) neu unrhyw dystiolaeth arall o incwm a gollwyd yn ystod y tri mis rhwng 1 Mawrth a 30 Ebrill 2020.	25% – 49%	8
Effeithiwyd yn rhannol ar incwm yr ymgeisydd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.	Rhowch dystiolaeth o'r incwm a gollwyd (h.y. datganiadau ariannol ar gyfrifon wedi eu harchwilio ar gyfer y tair blynedd diwethaf) neu unrhyw dystiolaeth arall o incwm a gollwyd yn ystod y tri mis rhwng 1 Mawrth a 30 Ebrill 2020.	Hyd at 24%	6

Cymorth Gwladwriaethol

120. Rhaid i bob prosiect gydymffurfio â holl reolau cymhwyster y cynllun a rheolau Cymorth Gwladwriaethol er mwyn bod yn gymwys i gael arian.

121. Nid yw Erthyglau 107, 108 a 109 TFEU yn berthnasol i grantiau a ddarperir dan y cynllun hwn a wneir yn unol â Rheoliad (UE) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, o fewn cwmpas Erthygl 42 TFEU. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r prosiectau ymwneud â dal, cynhyrchu a/neu brosesu cynhyrchion pysgodfeydd. Caiff y rhain eu diffinio yn:

- Atodiad I i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (a geir yng

Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd o dan 2012/C 326/01)

- Atodiadau I a II i Reoliad Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd 1379/2013.

122. Os nad ydych chi'n teimlo bod eich prosiect yn bodloni'r meini prawf hyn yna dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod eich prosiect cyn gwneud cais am arian.

Pwy sy'n gymwys?

Rhoddir cymorth o dan Erthygl 55 o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i fusnesau dyframaethu yng Nghymru sy'n cynhyrchu pysgod neu bysgod cregyn i'w bwyta gan bobl. Rhaid i fusnesau fod wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Iechyd Pysgod CEFAS fel busnes sy'n cynhyrchu cynhyrchion dyframaethu.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi bod yn masnachu ers o leiaf un flwyddyn. Os oes gennych unrhyw amgylchiadau lliniarol, gellir cyflwyno tystiolaeth fel archebion neu ymrwymadau gan brynwyr a gwneir cyfrifiadau ar sail y rhain.

Rhaid i fusnesau ddangos y byddent wedi bod yn masnachu ym mis Mawrth a mis Ebrill 2020; eu bod yn unig fasnachwr, microfusnes, neu fusnes bach neu ganolig.

Rhaid darparu tystiolaeth y gellir ei gwirio yr effeithiwyd ar incwm y busnes gan COVID-19, ac nad yw'r busnes yn gymwys ar gyfer unrhyw gynllun cymorth eraill i fusnesau gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU.

Rhaid i fusnesau brofi nad oeddent yn gallu rhoi staff ar absenoldeb ffyrlo oherwydd pryderon ynghylch lles anifeiliaid.

Ni dderbynnir ceisiadau gan y canlynol:

- Sefydliadau, busnesau neu unigolion sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog o dwyll o dan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) neu Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop;
- Sefydliadau, busnesau neu unigolion sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog o drosedd y mae Llywodraeth Cymru neu'r Undeb Ewropeaidd yn ei hystyried yn 'dor rheolau difrifol' neu dwyll yn y 12 mis cyn gwneud cais.

Sut rwy'n gwneud cais?

Gellir gwneud cais am y Cynllun Cymorth ar gyfer Busnesau Dyframaethu drwy gyfrif Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein.

Wrth benderfynu ar lefel y cymorth a roddir byddwn yn:

- Gofyn i ymgeiswyr gyflwyno eu cyfrifon ar gyfer y tair blynedd ariannol diwethaf, er mwyn cyfrifo a gwirio'r gwerthiannau cyfartalog fesul ymgymeriad yn ystod y tri chyfnod ariannol blaenorol.
- Lle mae'r uchod yn nodi pryderon (h.y. gweithredu ers llai na thair blynedd), cysylltir ag ymgeiswyr i drafod, cyflwyno tystiolaeth ychwanegol a dod i gytundeb o ran ffigur llinell sylfaen i seilio unrhyw gymorth a all gael ei gynnig arno.
- Cyfrifir yr incwm a gollwyd drwy dynnu'r incwm misol o werthiannau yn ystod y ddau fis cymhwyso o'r ffigur misol cyfartalog ar gyfer gwerthiannau.
- Cyfrifir y dyfarniad ar gyfer y misoedd rhwng 1 Mawrth a 30 Ebrill 2020, yn gynhwysol, ar sail yr incwm a gollwyd.
- Dim ond lle mae angen yn cael ei nodi a'i brofi y rhoddir cymorth. Os nad effeithiwyd ar ffigurau gwerthiannau ar gyfer 2020 ni chynigir cymorth ar gyfer y mis penodol hwnnw.
- Lle mae natur dymhorol gwaith cynaeafu yn golygu, ar sail cyfartaledd o dair blynedd, na ddisgwylir unrhyw werthiannau yn ystod y cyfnod cymhwyso rhwng mis Mawrth a mis Ebrill, ni roddir cymorth (gan na chollwyd unrhyw incwm yn ystod y cyfnod cymhwyso). Mae'r meini prawf hyn yn cael eu cyflwyno i sicrhau mai dim ond y rheini sydd ag angen wedi'i nodi sy'n derbyn cymorth, ac na chynigir ond y lefel isaf o gymorth sydd ei hangen er mwyn i ymgymeriadau barhau i fod yn solfent ac i fod yn barod i ddechrau masnachu unwaith eto pan fydd y marchnadoedd yn ailagor, a'r rhwystrau logistegol cysylltiedig yn cael eu tynnu.

Sut gwneir y taliad Grant?

Os ydych yn llwyddiannus, cynigir grant ichi drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

Rhaid ichi dderbyn y contract, yn ysgrifenedig, o fewn 30 diwrnod calendr i'r contract gael ei gynnig. Os nad ydych yn gwneud hyn bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Sut byddaf yn cael gwybod bod y taliad wedi'i wneud?

Bydd canllawiau ar sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi pan fydd y dyfarniad yn cael ei gadarnhau, a phan wahoddir yr ymgeisydd wedyn i hawlio. Gwneir y taliad drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.

Rhaid ichi hawlio drwy eich cyfrif RPW Ar-lein o fewn 120 diwrnod calendr i'r contract gael ei gynnig.

Os yw'r hawliad yn anghywir bydd eich hawliad yn cael ei leihau i'r swm sy'n gymwys, a thelir y grant yn unol â'r swm hwnnw.

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r wybodaeth a roddir yn y cais ac unrhyw ddogfennau ategol yn ddarostyngedig i'r Hysbysiad Preifatrwydd, sydd ar gael yn: <https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru> Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro'r ffordd mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ac yn prosesu eich data personol, ac yn egluro eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Y Broses Apelio

Os yw cais yn cael ei wrthod, rhoddir rhesymau dros wrthod y cais. Byddwn yn barod i drafod unrhyw addasiadau mae angen eu gwneud i sicrhau bod y prosiect yn dderbyniol.

Os yw cais yn cael ei wrthod ar ôl hynny, rhoddir proses apelio ar waith, a fydd yn cynnwys cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i unigolion a benodir gan Weinidogion Cymru. Bydd yr unigolion hyn yn annibynnol ar weinidogion Cymru.

Cwynion

Os ydych yn teimlo nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ddelio â'ch cais mae'n bosibl y byddwch am wneud cwyn yn unol â Pholisi Cwynion Llywodraeth Cymru, sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan yn:

http://llyw.cymru/contact_us/makeacomplaint/?lang=cy